# Estyn

# Arweinyddiaeth a gwella ysgolion

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' ym mis Mehefin 2022. Mae hyn yn amlinellu'r disgwyliadau o ran gwella ysgolion, yng nghyd-destun eu dyletswyddau cyfreithiol ehangach.**

Diben cyffredinol gwella ysgolion yw helpu ysgolion i roi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, er mwyn sicrhau safonau ac uchelgeisiau uchel i bawb.

Wrth ymateb i'r canllawiau hyn, mae Estyn wedi ystyried ystod o'i adroddiadau thematig yn ymwneud â gwella ysgolion, arweinyddiaeth, y cwricwlwm ac addysgu ac wedi defnyddio'r canfyddiadau i nodi ystod o nodweddion cyffredin mewn ysgolion sydd wedi ymgymryd â theithiau gwella ysgol llwyddiannus.

Mae'r tabl isod yn amlinellu trosolwg fesul cam o deithiau gwella ysgolion. Ei nod yw cynnig arweiniad ymarferol i gynorthwyo arweinwyr a staff ysgolion i fyfyrio ar safle presennol eu hysgol a meddwl am yr hyn y gallent ei wneud nesaf i wella agweddau gwahanol ar eu gwaith.



Mae hefyd yn cyd-fynd â'r wyth ffactor cyfrannol, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n disgrifio'r rhinweddau allweddol y mae ysgolion sy'n gwireddu'r cwricwlwm yn llwyddiannus yn eu dangos. Y rhain yw:

1. Galluogi pob dysgwr, ac yn benodol y rheini o gefndiroedd difreintiedig, i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu huchelgeisiau i gyflawni eu llawn botensial, gan ddilyn amrywiaeth o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn.
2. Datblygu cwricwlwm ar y cyd, yn unol â fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sy'n hyrwyddo amrywiaeth eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithiol) gyda dealltwriaeth glir o pam y mae'r rhain yn bwysig.
3. Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr.
4. Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth gynllunio cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg pob aelod o staff.
5. Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n dysgu.
6. Ymgorffori prosesau myfyrio, hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion, gyda phrosesau arweinyddiaeth ysgolion da yn rhag-amod i hynny.
7. Bod wrth wraidd eu cymunedau – gan feithrin cydberthnasau gwell rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol a chyflogaeth ardderchog a'r camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant.
8. Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.

## Nodweddion gwella ysgolion effeithiol

### Nodweddion gwella cyffredin

**Arweinwyr:**

- Yn diffinio'n glir y **weledigaeth ar gyfer dysgu a lles disgyblion a'r addysgu a'r cwricwlwm i gyflawni hyn. Yn adolygu'r weledigaeth hon yn rheolaidd**
- Yn sefydlu **gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol** ymhlith staff i gefnogi gwelliant parhaus a gwaith tîm effeithiol
- Yn canolbwyntio ar gefnogi pob disgybl i ddatblygu **agweddau cadarnhaol** tuag at yr ysgol, dysgu a lles
- Yn sefydlu ac yn cynnal diwylliant sydd â **chynnydd a lles** fel y brif flaenoriaeth
- Yn sicrhau mai **gwella addysgu** yw'r broses allweddol sy'n cyfrannu at wella cynnydd a lles disgyblion
- Yn dylunio ac yn cyflwyno **cwricwlwm** sy'n **bodloni anghenion pob disgybl** yn llawn
- **Yn dylunio ac yn defnyddio ystod o brosesau asesu i gefnogi cynnydd a lles dysgwyr**
- Yn cynnal ffocws cyson ar wella **gwybodaeth, medrau (llythrennedd (Cymraeg/Saesneg), rhifedd a digidol) a phrofiadau** disgyblion
- Yn sicrhau bod **dysgu proffesiynol parhaus** staff yn gwella ansawdd darpariaeth a chynnydd disgyblion
- Yn sicrhau bod yr holl staff yn **atebol** am wella addysgu, y cwricwlwm a lles a chynnydd disgyblion
- Yn sicrhau bod gwaith gwerthuso yn ddibynadwy a'i fod yn llywio ac yn arwain at welliant
- Yn rhoi dadansoddiadau clir, dealladwy a gonest i **lywodraethwyr** o ba mor dda mae'r ysgol yn perfformio ac yn eu hannog i herio unrhyw danberfformiad sy'n cael ei nodi

| | Dechrau'r daith | Gwneud cynnydd | Adeiladu momentwm | Cynnal safonau uchel |
|---|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth strategol** | Sefydlu gweledigaeth ar **gyfer dysgu a lles disgyblion.**<br>**Sefydlu gweledigaeth ar gyfer addysgu a'r cwricwlwm.**<br>Sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn ystyried y pedwar diben sydd wedi'u hamlinellu yn y Cwricwlwm i Gymru.<br>Sefydlu set gytûn o **werthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n tanategu diben cyffredin.** | Mae'r holl staff a chymuned yr ysgol yn deall gweledigaeth yr ysgol ar gyfer **dysgu a lles disgyblion, addysgu a'r cwricwlwm.**<br>Mae'r holl staff yn deall y **gwerthoedd a'r ymddygiadau proffesiynol cytûn sy'n tanategu diben cyffredin.** | Mae'r holl staff a chymuned yr ysgol yn datblygu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer gwella'n barhaus ac yn ymwybodol o'u rolau o ran cyflawni'r weledigaeth. Maent yn adolygu'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol i sicrhau eu bod yn cefnogi rhagor o welliant.<br>Mae'r holl staff yn arddangos y **gwerthoedd a'r ymddygiadau proffesiynol cytûn sy'n tanategu diben cyffredin.** Caiff hyn ei adlewyrchu yn y penderfyniadau y mae staff yn eu gwneud ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. | Mae'r ysgol yn parhau i roi ei gweledigaeth ar waith ar gyfer dysgu a lles yr holl ddisgyblion. Mae'n adolygu ac yn diweddaru ei gweledigaeth ar adegau priodol i hyrwyddo dyheadau uchel i bawb a sicrhau gwelliant parhaus.<br>Mae gwaith yr holl staff yn adlewyrchu'r **gwerthoedd a'r ymddygiadau proffesiynol cytûn sy'n tanategu diben cyffredin** yn gyson i gyflawni'r gorau oll i'w disgyblion. |
| **Ymagweddau arweinyddiaeth** | Defnyddio ymagwedd gyfarwyddol neu uniongyrchol i ymdrin â diffygion a nodwyd yng nghynnydd a lles disgyblion, addysgu a'r cwricwlwm. | Adeiladu ar yr ymagwedd gyfarwyddol hon trwy ddechrau datblygu ymagwedd fwy cydweithredol tuag at wella'r ysgol, er enghraifft trwy ehangu cyfrifoldebau arweinyddiaeth a gwella gwaith tîm. | Mae ymagwedd gydweithredol, agored a chynhwysol wedi'u sefydlu'n gadarn, wedi'i seilio ar ddisgwyliadau uchel. Mae lefel uchel o gysondeb yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith yr ysgol. | Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau i gynnal safonau uchel ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol. Maent yn grymuso'r holl staff i fentro'n briodol a gwneud dewisiadau gwybodus ar sail gwerthoedd, ymddygiadau a gweledigaeth yr ysgol. |
| **Datblygu gallu arweinyddiaeth** | Sefydlu strwythur arweinyddiaeth clir gyda rolau a chyfrifoldebau dynodedig.<br>Sefydlu trefniadau i sicrhau bod arweinwyr yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. | Dosbarthu cyfleoedd arweinyddiaeth a sicrhau bod staff yn y rolau hyn yn deall yn benodol beth maent yn atebol amdano ac yn cael y gefnogaeth i ddatblygu'r medrau i gyflawni'r dyletswyddau hyn.<br>Defnyddio trefniadau sefydledig i sicrhau bod arweinwyr yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.<br>Darparu ystod o ddysgu proffesiynol defnyddiol i gefnogi a gwella medrau arweinyddiaeth. | Mae arweinyddiaeth ddosranedig wedi'i sefydlu'n dda ac yn llwyddiannus yn gyson o ran gwella dysgu, lles, addysgu a'r cwricwlwm.<br>Mae'r holl arweinwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir ac yn cyfrannu at wella'n barhaus. | Mae arweinyddiaeth ddosranedig wedi'i sefydlu'n dda ac yn hynod lwyddiannus o ran gwella dysgu, lles, addysgu a'r cwricwlwm.<br>Mae'r holl arweinwyr yn modelu ymddygiad arweinyddiaeth yn effeithiol. Mae hyn yn hyrwyddo diwylliant parhaus o ddatblygu arweinyddiaeth. |
| **Gwella safonau dysgu a lles, gan gynnwys datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu** | Mae ffocws ar ddatblygu systemau ac ymagweddau tuag at wella hanfodion ymddygiad a phresenoldeb.<br>Sefydlu disgwyliadau clir yn ymwneud â chynnydd disgyblion mewn dysgu a lles mewn gwersi a thros gyfnod.<br>Sefydlu a gweithredu cynllun ysgol gyfan clir a chyson i ddatblygu medrau llythrennedd a mathemategol disgyblion yn gyson ac yn gynyddol.<br>Dechrau datblygu medrau annibynnol a 'dysgu i ddysgu' disgyblion.<br>Meithrin agweddau o wydnwch a dyfalbarhad ymhlith disgyblion. | Mae systemau i reoli ymddygiad a phresenoldeb yn gyson ac yn llwyddiannus ac wedi'u seilio ar ddisgwyliadau clir sy'n cael eu deall yn dda i bawb. Maent yn dechrau datblygu agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol a dysgu.<br>Cynnal disgwyliadau penodol yn ymwneud â chynnydd disgyblion mewn dysgu a lles.<br>Parhau i weithredu cynllun ysgol gyfan clir a chyson i ddatblygu medrau llythrennedd a mathemategol disgyblion yn gyson ac yn gynyddol.<br>Parhau i ddatblygu medrau annibynnol a 'dysgu i ddysgu' disgyblion.<br>Parhau i ddatblygu disgyblion fel dysgwyr gwydn a phenderfynol. | Mae safonau ymddygiad a phresenoldeb yn dda. Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol a dysgu. Cânt eu meithrin trwy addysgu a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel a pherthnasoedd cadarnhaol ar draws yr ysgol.<br>Mae disgwyliadau cyson uchel o ran cynnydd disgyblion mewn dysgu a lles.<br>Mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a mathemategol yn gyson ac yn gynyddol. Maent yn cymhwyso'r rhain ar draws y meysydd dysgu.<br>Yn gynyddol, mae disgyblion yn dangos medrau dysgu annibynnol cryf ac yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad. | Mae safonau ymddygiad, presenoldeb ac agweddau disgyblion at ddysgu a lles yn rhagorol, fel arfer, oherwydd ansawdd y ddarpariaeth a'r diwylliant yn yr ysgol.<br>Mae diwylliant o ddisgwyliadau a pherfformiad uchel yn treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol.<br>Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau (gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a digidol) yn gyson dda ar draws yr holl feysydd dysgu.<br>Mae disgyblion yn datblygu eu dysgu'n gynyddol i ddod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella addysgu ac asesu** | Sicrhau bod yr holl staff yn deall sut olwg sydd ar addysgu ac asesu da a sut mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd.<br>Sefydlu ymagweddau cyson tuag at arfer gyffredin yn yr ystafell ddosbarth e.e. arferion sylfaenol, ymagweddau tuag at addysgu darllen ac ysgrifennu.<br>Sefydlu prosesau i sicrhau bod staff yn defnyddio gwybodaeth asesu gywir/briodol i lywio addysgu a dysgu.<br>Sicrhau bod prosesau olrhain yn cefnogi ysgolion i sbarduno gwelliannau i gynnydd disgyblion.<br>Sefydlu systemau i werthuso addysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion mewn dysgu a lles. | Sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio ystod o strategaethau / ymagweddau priodol i gefnogi lles a chynnydd disgyblion.<br>Datblygu ymagweddau cyson tuag at arfer gyffredin yn yr ystafell ddosbarth ymhellach e.e. arferion sylfaenol, ymagweddau tuag at addysgu darllen ac ysgrifennu.<br>Mae'r holl staff yn defnyddio gwybodaeth asesu ac olrhain i lywio addysgu a dysgu i gefnogi cynnydd mewn dysgu a lles disgyblion.<br>Ymgorffori systemau i werthuso addysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion mewn dysgu a lles. Defnyddio'r wybodaeth hon i nodi cyfleoedd i wella addysgu a dysgu ymhellach.<br>Canolbwyntio ar ddatblygu medrau dysgu i ddysgu disgyblion, er enghraifft eu gallu i ymateb i adborth a gwella eu gwaith. | Mae gan bob un o'r athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n gyfystyr ag addysgu effeithiol ac yn defnyddio ystod o ymagweddau addysgu i gefnogi cynnydd da mewn dysgu a lles.<br>Mae athrawon yn defnyddio arferion a threfnau cyson yn yr ystafell ddosbarth yn effeithiol. Maent yn dechrau arloesi i gynyddu effeithiolrwydd ymagweddau tuag at addysgu a dysgu.<br>Mae trefniadau asesu ac olrhain yn cefnogi lefelau da o gynnydd mewn dysgu a lles disgyblion yn gyson.<br>Mae'r holl staff yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i werthuso a gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu.<br>Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau dysgu i ddysgu, er enghraifft eu gallu i ymateb i adborth a gwella eu gwaith. | Mae ansawdd yr addysgu yn sicrhau'n gyson fod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda ac yn cyflawni safonau uchel iawn.<br>Mae athrawon yn defnyddio arferion a threfnau cyson yn yr ystafell ddosbarth yn effeithiol. Maent yn addasu'r rhain yn naturiol ar adegau priodol i gynyddu'r effaith ar ddysgu a lles.<br>Mae trefniadau asesu ac olrhain yn hynod effeithiol oherwydd eu bod yn cael effaith nodedig ar gynnydd mewn dysgu a lles.<br>Mae trefniadau i werthuso a gwella addysgu ac asesu yn hynod effeithiol. Maent yn datblygu diwylliant o welliant parhaus ac yn cefnogi cynnydd cadarnhaol i bawb mewn dysgu a lles.<br>Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau dysgu i ddysgu yn gyson i gyfoethogi a gwella eu dysgu, lle bo hynny'n briodol, mewn ystod o gyd-destunau. |
| **Datblygu cwricwlwm i fodloni anghenion pob disgybl** | Yn dylunio cwricwlwm yn unol â'u gweledigaeth i fodloni anghenion pob disgybl yn llawn. Sicrhau bod pob un o'r athrawon yn deall pwysigrwydd addysgu cryf mewn sicrhau cwricwlwm llwyddiannus. Datblygu dealltwriaeth staff mai'r cwricwlwm yw popeth mae disgybl yn cael profiad ohono yn yr ysgol.<br>Canolbwyntio ar wella gwybodaeth, medrau (dealltwriaeth) (gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a digidol) a phrofiadau disgyblion. | Sicrhau bod y cwricwlwm yn cyfateb i anghenion a diddordebau'r disgyblion ac yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu ar draws yr ysgol fel ei fod yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn cefnogi cynnydd disgyblion.<br>Cynnal y ffocws ar wella gwybodaeth, medrau (dealltwriaeth) (gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a digidol) a phrofiadau disgyblion. | Sicrhau bod y cwricwlwm yn eang, cytbwys ac yn berthnasol i anghenion a diddordebau disgyblion a'i fod wedi'i danategu gan addysgu effeithiol i gefnogi cynnydd da mewn dysgu a lles.<br>Mae'r holl staff yn datblygu gwybodaeth, medrau (gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a digidol) disgyblion yn gyson trwy gynnig profiadau dysgu o ansawdd uchel ar draws pob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol. | Sicrhau bod y cwricwlwm a darpariaeth ar gyfer medrau yn hynod ddifyr ac yn cynnig profiadau dysgu eang a chytbwys y tu mewn a'r tu allan i wersi ac yn cynorthwyo pob disgybl i wneud cynnydd cyson uchel mewn dysgu a lles.<br>Mae'r holl staff yn hynod lwyddiannus o ran datblygu gwybodaeth, medrau (gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a digidol) disgyblion trwy gynnig profiadau dysgu o ansawdd uchel. |
| **Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant** | Cyflwyno diwylliant o hunanwerthuso wedi'i seilio ar ddadansoddiad o ystod o dystiolaeth uniongyrchol berthnasol.<br>Sefydlu cysylltiadau clir rhwng prosesau hunanwerthuso a gwella.<br>Cefnogi cyflawniad blaenoriaethau gwella trwy sefydlu trefniadau rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer staff a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n bodloni anghenion gwella penodol. | Datblygu medrau arweinwyr ymhellach i werthuso a gwella addysgu a dysgu.<br>Datblygu cysylltiadau rhwng prosesau hunanwerthuso a gwella ymhellach.<br>Cefnogi cyflawni blaenoriaethau gwella trwy ddefnyddio rheoli perfformiad staff a datblygiad proffesiynol parhaus yn effeithiol.<br>Dechrau gwerthuso effeithiolrwydd systemau gwella ysgolion ar wella ansawdd. | Mae'r diwylliant o werthuso a gwella wedi'i sefydlu, yn cael ei ddeall yn dda ac yn effeithiol o ran gwella addysgu, y cwricwlwm, dysgu a lles. Mae'n defnyddio safbwyntiau'r holl randdeiliaid perthnasol.<br>Mae cysylltiad clir rhwng canfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella'r ysgol.<br>Mae dysgu proffesiynol effeithiol a threfniadau rheoli perfformiad effeithiol yn cefnogi'r ysgol i wneud cynnydd cryf o ran bodloni ei holl flaenoriaethau gwella. | Mae prosesau gwerthuso a gwella yn hynod effeithiol ac yn cefnogi gwelliant parhaus ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.<br>Mae cysylltiadau rhwng gwaith hunanwerthuso, blaenoriaethau gwella'r ysgol, dysgu proffesiynol o ansawdd uchel a threfniadau rheoli perfformiad effeithiol yn cefnogi'r ysgol i gynnal safonau uchel iawn o addysgu, dysgu a lles. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dysgu proffesiynol** | Sefydlu trefniadau dysgu proffesiynol i:<br>• gynnig cymorth penodol i staff i wella ansawdd eu haddysgu<br>• cynnig cymorth penodol i alluogi staff i gefnogi'r ysgol i gyrraedd ei nodau gwella<br>• sefydlu a chynnal disgwyliadau uchel yn ymwneud â darpariaeth i ddisgyblion a'u cynnydd mewn dysgu a lles<br>Dechrau datblygu cyfleoedd i staff gyfrannu at feysydd penodol o wella'r ysgol. | Parhau i ehangu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff i wella eu harfer eu hunain, gwella dysgu a lles disgyblion a chynyddu gallu arweinyddiaeth yn yr ysgol.<br>Cynyddu'r cyfleoedd i staff gyfrannu at feysydd penodol o wella'r ysgol. | Mae trefniadau dysgu proffesiynol yn effeithiol o ran gwella ansawdd arweinyddiaeth, addysgu a'r cwricwlwm. Mae hyn yn ategu gwelliant parhaus i ddysgu a lles disgyblion.<br>Mae llawer o staff yn ymgymryd â myfyrio proffesiynol i wella addysgu a dysgu. Maent yn defnyddio ymchwil berthnasol (lle bo hynny'n briodol) ac yn dechrau rhannu'r gwaith hwn o fewn a'r tu hwnt i'r ysgol i ddangos y gwahaniaeth y mae'r gwaith hwn wedi'i wneud i addysgu, y cwricwlwm, dysgu a lles. | Mae trefniadau ar gyfer dysgu proffesiynol yn hynod effeithiol ac yn cefnogi diwylliant o welliant parhaus yn yr ysgol.<br>Mae'r holl staff yn ymgymryd â dysgu proffesiynol effeithiol yn rheolaidd. Maent yn defnyddio ymchwil berthnasol (lle bo hynny'n briodol) ac yn rhannu'r gwaith hwn yn rheolaidd o fewn a'r tu hwnt i'r ysgol i ddangos y gwahaniaeth y mae'r gwaith hwn wedi'i wneud i addysgu, y cwricwlwm, dysgu a lles. |
| **Defnyddio llais y disgybl** | Sefydlu trefniadau i ystyried a gweithredu ar safbwyntiau disgyblion. | Datblygu trefniadau ymhellach i ystyried a gweithredu ar safbwyntiau disgyblion. | Mae llais y disgybl yn ddylanwadol ac yn rhan sefydledig o brosesau gwella'r ysgol. | Mae llais y disgybl yn cael effaith reolaidd a chadarnhaol ar godi safonau darpariaeth, dysgu a lles. |
| **Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned** | Canolbwyntio ar sefydlu neu adfer enw da'r ysgol â rhieni a'r gymuned leol.<br>Sefydlu trefniadau effeithiol i gyfathrebu â chymuned yr ysgol. | Achub ar bob cyfle i ddatblygu partneriaethau â rhieni a'r gymuned leol sy'n cefnogi gwelliannau i ddarpariaeth a dysgu a lles disgyblion. | Mae partneriaeth â rhieni a'r gymuned leol o fudd i'r ddwy ochr ac yn cefnogi dysgu a lles cyson dda i ddisgyblion. | Mae partneriaethau â rhieni a'r gymuned leol o fudd i'r ddwy ochr ac yn hynod lwyddiannus o ran sicrhau'r dysgu a lles gorau posibl i ddisgyblion. |





